



CADWYN CLWYD CYFYNGEDIG ADRODDIAD BLYNYDDOL

EBRILL Y 1AF 2020
- MAWRTH YR
31AIN 2021

CADWYN CLWYD CYFYNGEDIG ANNUAL REPORT

1ST APRIL 2020 -
31ST MARCH 2021



*Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency*



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHAGAIR FOREWORD

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol eleni, ar ran Cadwyn Clwyd, sy'n ymdrin â llwyddiannau Cadwyn Clwyd yn ystod y 12 mis diwethaf. Er gwaethaf yr amryw heriau yn sgil y pandemig, fe lwyddodd y cwmni i gyflawni eu portffolio o raglenni a phrosiectau ar lawr gwlad i gefnogi ein cymunedau cefn gwlad yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a thu hwnt. Llwyddodd y cwmni i greu effaith cadarnhaol dros ben yn ein hardal weithredu drwy dreialu a chynnal 222 o brosiectau o dan LEADER, 10 prosiect ledled Cymru o dan yr ymbarél Ynni Clyfar a phrosiect amddiffyn rhag Llifogydd Naturiol Afon Clwyd. Yn ogystal fe gynhaliwyd 55 prosiect gyda chymorth ariannol gan gronfa Brenig. O ran y pandemig, fe lwyddodd Cadwyn Clwyd i baratoi prosiect i fynd i'r afael â Covid 19 ymhen 48 awr o'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020 ac mae hynny'n tipyn o gamp. Bu inni gynorthwyo 17 o fudiadau a grwpiau gwirfoddol i gynnig cefnogaeth ymarferol i sefydlu ffyrdd newydd o weithio gan gynnig cefnogaeth rheng flaen i gymunedau yn ystod y cyfnod heb ei debyg hwn.

Er gwaethaf heriau Brexit, llwyddodd y Cwmni i ennill £1.5 miliwn pellach i gefnogi gwaith adfer yn dilyn Covid, datblygu seilwaith gwyrdd ynghyd â datblygu mentrau i drechu allgáu digidol yng nghefn gwlad Gogledd Ddwyrain Cymru. Gan edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i geisio canfod cyfleoedd i gefnogi ein cymunedau yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ac rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda nhw yn ystod y flwyddyn nesaf.

On behalf of Cadwyn Clwyd, I'm pleased to present this year's annual report detailing the achievements of Cadwyn Clwyd over the last 12 months. Despite the many challenges arising from the pandemic, the Company has successfully delivered its portfolio of programmes and projects on the ground to support our rural communities in North East Wales and further afield. With over 222 projects piloted and implemented under LEADER, 10 projects pan-Wales under the Smarter Energy umbrella, the River Clwyd Natural Flood defence project and 55 projects assisted by Brenig funding, the Company has certainly made a positive impact in our operational area. With regards to the pandemic, it was extremely positive that Cadwyn was able to mobilise a Covid-19 response project within 48 hours of the lockdown back in March 2020. We helped 17 organisations and volunteer groups to provide hands-on support in establishing new ways of working by providing front line support to communities in their time of need.

Despite the challenges of Brexit, the Company has secured a further £1.5million in funds to support Covid recovery and development of green infrastructure, together with initiatives for tackling digital exclusion in rural North East Wales. Looking ahead, we will continue to seek out opportunities to support our rural communities in North East Wales and look forward to working with them in the coming year.

ANDREW JEDWELL – CADEIRYDD / **CHAIRMAN** CADWYN CLWYD

CYNNWYS CONTENTS

	TUDALEN / PAGE
Rhagair gan Andrew Jedwell – Cadeirydd Cadwyn Clwyd Foreword by Andrew Jedwell – Cadwyn Clwyd Chairman	1
Cyflwyniad Introduction	2
LEADER yn Sir Ddinbych, Sir Fflint a Wrexham LEADER in Denbighshire, Flintshire and Wrexham	5
<ul style="list-style-type: none">• Thema 1 – Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol / Theme 1 - Adding value to local identity and natural and cultural resources• Thema 2 – Hwyluso datblygiad cyn masnachu, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr / Theme 2 - Facilitating pre-commercial development, business partnerships and short supply chains• Thema 3 – Ymchwilio ffyrdd newydd o gynnig gwasanaethau lleol anstatudol / Theme 3 - Exploring new ways of providing non-statutory local services• Thema 4 – Ynni Adnewyddadwy ar lefel gymunedol / Theme 4 - Renewable energy on a community level• Thema 5 – Ymelwa ar dechnoleg ddigidol / Theme 5 - Exploitation of digital technology	5 7 9 11 13 14
Trechu Covid-19 / Tackling Covid-19	16
Adborth gan Fuddiolwyr y Prosiectau / Feedback from Project Beneficiaries	19
Allbynnau a Deilliannau LEADER / LEADER Outputs and Outcomes	21
Rhestr Prosiectau LEADER / LEADER Projects List	27
Ynni Clyfar - <i>Cynllun Cydweithio a Datblygu Cadwyn Cyflenwi</i> Smarter Energy - Co-operation and Supply Chain Development Scheme	29
Rheoli Risg Llifogydd Naturiol Cynaliadwy a Chydweithredol ar yr Afon Clwyd - <i>Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)</i> Collaborative Sustainable Natural Flood Risk Management on the River Clwyd - Sustainable Management Scheme (SMS)	31
Personél: Bwrdd Cyfarwyddwyr a Staff Cadwyn Clwyd Personnel: Cadwyn Clwyd Board of Directors and Staff	Ynghlwm / Appended
Brenig Wind Ltd. Adroddiad Blynyddol y Gronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd. Community Benefit Fund Annual Report	Ynghlwm / Appended
Datganiadau Ariannol Financial Statements	Ynghlwm / Appended

CYFLWYNIAD INTRODUCTION

Yn ystod y 12 mis hynod heriol diwethaf, fe barhaodd y cwmni i weinyddu eu portffolio o raglenni yn llwyddiannus.

Ymhlith cynlluniau Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) Llywodraeth Cymru mae LEADER. Mae'r Cwmni yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun ar ran Grwpiau Gweithredu Lleol (LAGs) yng nghefn gwlad Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bu i'r Cwmni ennill cyfanswm cronus o £3,966,169 o brosiectau LEADER cymeradwy ar ran y Grwpiau Gweithredu Lleol. Yn ogystal bu iddyn nhw gefnogi, rheoli a gweithredu 222 prosiect unigol yn ymdrin â'r themâu canlynol:

1. Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol
2. Hwyluso datblygiad cyn masnachu, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
3. Ymchwilio ffyrdd newydd o gynnig gwasanaethau anstatudol lleol
4. Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol
5. Ymelwa ar dechnoleg ddigidol

Gyda chyllid gan LEADER, bu i Cadwyn Clwyd a'r Grwpiau Gweithredu Lleol fynd ati i lansio Prosiect Cefnogaeth Frys i gymunedau yn ystod cyfnod Covid-19. Diben y prosiect oedd mynd i'r afael gyda'r effeithiau negyddol ar y gymdeithas a chymunedau yn sgil y pandemig Covid-19. Bu i'r prosiect gynnig cefnogaeth gan swyddogion a chefnogaeth ariannol er mwyn i grwpiau cymunedol allu addasu i gyflawni ffyrdd newydd o weithio a sicrhau cefnogaeth rheng flaen i gymunedau ac unigolion bregus. Bu inni gefnogi 17 menter i gyd.

Bu i'r Cwmni hefyd gyflawni dau brosiect Rhaglen Datblygu Gwledig ychwanegol: Ynni Clyfar o dan y Cynllun Cydweithio a Datblygu Cadwyni Cyflenwi oedd yn £316,000; a'r prosiect Dulliau

During the last challenging 12 months, the company has continued to successfully administer its portfolio of programmes.

One such scheme within the Welsh Government's Rural Development Programme (RDP) is LEADER, which the Company administers on behalf of Local Action Groups (LAGs) in rural Denbighshire, Flintshire and Wrexham.

During this reporting period, the Company achieved a cumulative total of £3,966,169 approved LEADER projects on behalf of the LAGs, and supported, managed and implemented 222 individual projects across the following themes:

1. Adding value to local identity and natural and cultural resources
2. Facilitating pre-commercial development, business partnerships and short supply chains
3. Exploring new ways of providing non-statutory local services
4. Renewable energy on a community level
5. Exploitation of digital technology

Funded from LEADER, Cadwyn Clwyd and the LAGs also formed a Covid-19 Emergency Support Project for communities, helping to tackle the social and community impacts of the Covid-19 pandemic. This project provided officer and financial support to enable community groups to adapt to new ways of working to ensure frontline support for communities and vulnerable individuals. A total of 17 initiatives have been supported.

The Company also completed two other RDP projects: Smarter Energy, under the Co-operation and Supply Chain Development Scheme, at £316,000;

Naturiol i Reoli Risg Llifogydd ar yr Afon Clwyd, o dan y Cynllun Rheoli Cynaliadwy gyda chyllideb o £330,000. Bu i Cadwyn Clwyd hefyd dderbyn cymeradwyaeth yn ystod camau cyntaf dau brosiect pellach fel rhan o'r Prosiect Rhaglen Datblygu Gwledig, Hygyrchedd Digidol Gogledd Ddwyrain Cymru a Chymunedau Gwyrdd.

Bu i'r prosiectau yn ystod y cyfnod fanteisio ar gyfanswm o £9,976,751 gan amryw gronfeydd y cynllun Rhaglen Datblygu Gwledig.

and the Natural Approaches to Flood Risk Management on the River Clwyd project, under the Sustainable Management Scheme (SMS), with a budget of £330,000. Cadwyn Clwyd also received first stage approval for two further projects within the RDP, New Digital Access and the Green Communities Project.

The total value of various RDP scheme funds accessed during the period is £9,976,751.

Cynllun:	Scheme:	£
LEADER Sir Ddinbych	Denbighshire LEADER	£2,233,688
LEADER Sir y Fflint	Flintshire LEADER	£2,924,813
LEADER Wreccsam Wledig	Rural Wrexham LEADER	£2,674,250
Cadwyn Cyflenwi (Ynni Clyfar)	Supply Chain (Smarter Energy)	£316,000
Cynllun Rheoli Cynaliadwy (Afon Clwyd)	SMS (River Clwyd)	£330,000
Cadwyn Cyflenwi (Hygyrchedd Digidol Gogledd Ddwyrain Cymru)	Supply Chain (NEW Digital Access)	£198,000
Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (Cymunedau Gwyrdd)	ENRAW (Green Communities)	£1,300,000
CYFANSWM GWERTH Cynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig	TOTAL VALUE RDP Schemes	£9,976,751

Caiff y cyllidebau uchod eu rheoli a'u cyflawni'n uniongyrchol gan Cadwyn Clwyd
The above budgets are directly managed and delivered by Cadwyn Clwyd

Bu i Cadwyn Clwyd hefyd weinyddu Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Limited. Hyd yn hyn, bu i'r gronfa gyflwyno £333,362 mewn grantiau a chefnogi 55 prosiect cymunedol gan ystod eang o ymgeiswyr. Ymhlith y prosiectau oedd TChG i grwpiau cymunedol, ail-wampio neuaddau cymuned, gwella cyfleusterau chwaraeon a hamdden, buddsoddi mewn darparwyr gofal plant cymunedol a chefnogi grwpiau cymdeithasol yn ardal Hiraethog Sir Ddinbych a Chonwy.

Cadwyn Clwyd also administered the Brenig Wind Limited Community Benefit Fund. To date, the fund has awarded £333,362 in grants and supported 55 community projects from a wide variety of applicants, from ICT for community groups, village hall refurbishments, upgrading of sports and recreation facilities, investment in community childcare providers, to support for social groups in the Hiraethog area of Denbighshire and Conwy.

Er gwaethaf Brexit, bu i'r Cwmni lwyddo gyda'u ceisiadau i gynnal LEADER a phrosiectau Rhaglen Datblygu Gwledig eraill nes 2023 ynghyd â Chytundeb Brenig Wind Ltd am gyfnod o 5 mlynedd o leiaf. At hyn, bydd y Cwmni yn parhau i weinyddu a cheisio canfod cyfleoedd ariannu i gymunedau gan gronfeydd fel mentrau Datblygu Lleol o Dan Ofal y Gymuned gan Lywodraeth Cymru, y Gronfa Ffyniant Gyffredin, y Gronfa Adfer Cymunedol a'r Gronfa Codi'r Gwastad, Cronfeydd Budd Cymunedol yn ymwneud â Ffermydd Gwynt, cyllid Loteri a chronfeydd eraill wrth i'r cyfleoedd ymddangos.

Despite Brexit, the Company has secured LEADER and other RDP projects until 2023, and the Brenig Wind Ltd Contract for a period of at least 5 years. The Company will also continue to administer and seek funding opportunities for local communities from funds such as Welsh Government Community-Led Local Development initiatives, the Shared Prosperity Fund, Community Renewal Fund & Levelling Up Fund, Community Benefit Funds relating to Windfarms, Lottery funding and other funds as opportunities arise.

Lowri Owain - Rheolwr y Cwmni / **Company Manager** Cadwyn Clwyd



LEADER YN SIR DDINBYCH, SIR Y FFLINT A WRECSAM

LEADER IN DENBIGHSHIRE, FLINTSHIRE, WREXHAM

Bu i LEADER barhau i wneud cynnydd cadarnhaol ledled cefn gwlad Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrexham yn ystod y cyfnod adrodd hwn o ran cyflawni a chefnogi mentrau lleol o dan ofal y gymuned. Caiff y rhaglen ei chyflawni gan ymdrin â'r 5 thema sydd wedi'u crybwyll isod.

LEADER across the rural areas of the three counties of Denbighshire, Flintshire and Wrexham has continued to make positive progress over this reporting period in its delivery and support for community-led local initiatives. The programme is delivered across 5 themes detailed below.

THEMA 1 – YCHWANEGU GWERTH AT HUNANIAETH LEOL AC ADNODDAU NATURIOL A DIWYLLIANNOL

Ynghlwm â Thema 1, bu i gyllid LEADER gefnogi sawl prosiect ar y cyd â chymunedau sydd wedi cynorthwyo gyda buddsoddi mewn ymdeimlad o le. Bu i'r cyllid hefyd helpu gydag ymelwa ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy mewn ffordd dringar a chynaliadwy, yn ogystal â Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte. Roedd hyn er budd ymwelwyr a chymunedau'r ardaloedd. Drwy fanteisio ar yr adnoddau naturiol a diwylliannol oedd ar gael, roedd modd ychwanegu gwerth at yr ardal er mwyn annog mwy o bobl i aros yn yr ardal am gyfnod hirach.

Cafodd sawl astudiaeth ddichonolrwydd eu cyflawni, gan gynnwys Astudiaeth Peirianeg Rheilffordd Llangollen a oedd yn help i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer Rheilffordd Llangollen. Yn ogystal fe gynhaliwyd Astudiaeth ddichonolrwydd ynghylch Wal JC Edwards a fydd yn fodd o warchod hen safle'r gwneuthurwr briciau enwog yn ei ddydd, yn Nhrefor.

Yn Sir y Fflint, mae LEADER yn cefnogi 2 brosiect ym Mryn y Beili, Yr Wyddgrug, gwerth £146,460. Mae'r ddau brosiect yn rhan o brosiect Loteri Treftadaeth mwy caiff ei oruchwylio ar y cyd gan Gyngor Sir y Fflint, Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyfeillion Bryn Beili. Bu i gefnogaeth LEADER gynorthwyo i ddenu cyllideb o £1,138,700 ar gyfer y prosiect drwy'r Loteri Genedlaethol ynghyd â £49,600 ychwanegol o Dreth Dirlenwi a £10,000 o Gronfa Arglwydd Faer Cyngor Tref yr Wyddgrug.

Mae Cadwyn Clwyd hefyd yn aelod o Fwrdd Partneriaeth y Prosiect Loteri Ein Tirlun Darluniadwy. Ynghlwm â Thema 1, bu iddyn nhw helpu i ariannu sawl agwedd o'r prosiect, gan gynnwys Cynllun Rheoli Coetir Gwella'r Olygfa yn Nhraphont Ddŵr Pontcysyllte ynghyd â'r Hyfforddiant Sgiliau Traddodiadol ym Mhlas Newydd yn Llangollen.

Bu i Cadwyn Clwyd gydweithio gydag amryw grwpiau a chymunedau ar brosiectau mawr a bach. Er enghraifft, buon nhw'n cydweithio gydag Amgueddfa Wreccsam i ymchwilio'r ffordd orau o warchod eu tramiau sy'n weddill. Yn ogystal bu iddyn nhw gydweithio gyda Chwmni Buddiant Cymunedol Parc y Gorffennol yn hen Chwarel Fagl Lane yn Sir y Fflint, i ymchwilio sut i ail-ddatblygu'r safle i'r cyhoedd allu manteisio arno.

Mae Cadwyn Clwyd, ar y cyd ag eraill, yn cefnogi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i gyflawni eu prosiect Ymgeisio am yr Awyr Tywyll. Drwy'r prosiect fe fu modd ariannu Swyddog Cymunedol Awyr Tywyll sy'n gweithio ledled Gogledd Cymru i lunio dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol newydd a chynllun goleuo ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Bu modd i'r swyddog hefyd gynorthwyo gyda'r gwaith monitro awyr tywyll parhaol sy'n hanfodol er mwyn sefydlu cyfres o Safleoedd Darganfod Awyr Tywyll ledled Gogledd Ddwyrain Cymru.

THEME 1 - ADDING VALUE TO LOCAL IDENTITY AND NATURAL AND CULTURAL RESOURCES

Under Theme 1, LEADER funding has supported a number of projects with local communities that have aided investment in sense of place. It has also helped to sensitively and sustainably exploit the Clwydian Range and Dee Valley AONB, and the Pontcysyllte Aqueduct and Canal World Heritage Site, for the benefit of both visitors and local communities. By utilising the natural and cultural resources that are on offer, value has been added to the area to encourage more people to stay within the locality for longer.

A number of feasibility studies have been completed, including the Llangollen Railway Engineering Study, which helped to develop a strategic plan for Llangollen Railway; and the JC Edwards Wall Feasibility Study, which will help to conserve the former site of this once famous brick manufacturer, based in Trevor.

In Flintshire, LEADER is currently supporting 2 projects at Bailey Hill, Mold, with a total project value of £146,460. Both are part of a larger Heritage Lottery project that is being overseen by a partnership of Flintshire County Council, Mold Town Council and the Friends of Bailey Hill. The LEADER support has helped draw down an overall project budget of £1,138,700 from the National Lottery, and an additional £49,600 from the Landfill Tax and £10,000 from Mold Town Council's Lord Mayor's Fund.

Cadwyn Clwyd also sits on the Partnership Board for the Our Picturesque Landscape Lottery Project, and under Theme 1, has helped to fund a number of aspects of this, including the Improving the View Woodland Management Plan, at the Pontcysyllte Aqueduct; and the Traditional Skills Training, at Plas Newydd in Llangollen.

Cadwyn Clwyd has worked with many different groups and communities on both large and small projects. For example, working with Wrexham Museum on investigating how best to preserve their last remaining trams, to working with Park In The Past CIC, at the old Fagl Lane Quarry in Flintshire, to investigate how to redevelop the site for public access.

Through Cooperation, Cadwyn Clwyd are supporting the Clwydian Range and Dee Valley AONB on their Reaching for the Dark Skies project. This project has helped fund a Dark Skies Community Officer working across the North Wales region, establish a new supplementary planning guidance document and lighting plan for the AONB, and helped with the continued dark sky monitoring that is needed for establishing a series of Dark Skies Discovery Sites across North East Wales.



THEMA 2 – HWYLUISO DATBLYGIAD CYN MASNACHU, PARTNERIAETHAU BUSNES A CHADWYNI CYFLENWI BYR

Er gwaethaf y cyfyngiadau Covid-19 wnaeth amharu ar ein gallu i gyflawni prosiectau'n ystod y flwyddyn ariannol hon, bu i gyllid LEADER gefnogi amryw brosiectau sy'n annog mwy o entrepreneuriaid i roi cynnig ar syniadau newydd, cychwyn a/neu ddatblygu busnesau bach cynaliadwy, ffurfio partneriaethau busnes a chwotgi cadwyni cyflenwi.

Bu i ddau brosiect gynnig cyngor, cefnogaeth ac arweiniad heb ei ail i fusnesau drwy gydol y pandemig, sef y Rhwydweithiau Busnesau Gwledig (cam 2) a'r Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol. Bu i'r prosiectau hynny gynnig pecyn cefnogaeth unigryw drwy nifer o ddigwyddiadau digidol. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, fe gynhaliwyd digwyddiadau digidol gyda siaradwyr yn ymdrin â phynciau megis diogelwch ar-lein, 'Zoom bombing' (felly rhywun yn ymuno â chyfarfodydd Zoom heb ganiatâd), bygythiadau seiber CV-19 a'r effeithiau ar weithwyr oedd yn gweithio o adref. Pan gafodd y cyfyngiadau eu llacio a phan ddaeth y cyfnod clo i ben, bu'r sesiynau'n ymdrin â phynciau megis sut i weithredu ymarferion gwaith diogel a sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith (e.e. asesiadau risg), iechyd meddwl gweithwyr, Adnoddau Dynol, gwydnwch ac effaith Covid-19 ar brosesau gweithgynhyrchu bwyd. Bu hefyd cynnydd yn y nifer o fusnesau ar fin dechrau oedd yn chwilio am gyngor ar sefydlu mentrau cymdeithasol newydd.

Ymysg y prosiectau eraill wnaeth lwyddo i weithredu a chyflawni'n ddigidol oedd y prosiectau Sgiliau Rheoli ar gyfer Busnesau Bach Newydd ac Agor Drysau'r Gegin (Blas) cydweithredol. Roedd yn rhaid canslo digwyddiadau wyneb yn wyneb, felly fe aeth y prosiect Blas ati i hyrwyddo straeon cadarnhaol drwy nifer o ffilmiau, gan bortreadu cynhyrchwyr lleol ledled y tair sir. Daeth hyn i ben gyda nifer o sesiynau blasu wedi'u cyflwyno'n fyw a theithiau'n ymdrin ag amryw gynhyrchwyr, adwerthwyr a darparwyr lletygarwch o bob cwr o'r rhanbarth. Llwyddodd y prosiect i hwyluso cynhyrchwyr lleol i hyrwyddo'u cynnyrch ymysg ystod fwy eang o gwsmeriaid, denu mwy o gefnogaeth gan 'prynu'n lleol' a sicrhau twf mewn archebion i gynhyrchwyr fu'n ganlyniad uniongyrchol o gynllun hyrwyddo'r prosiect hwn.

Cafodd prosiect Llysgenhadon Twristiaeth Sir Ddinbych ei gyflawni yn ystod y cyfnod hwn hefyd gan ddenu 122 o lysgenhadon newydd ar ran y sir. Ers i gyllid y prosiect ddod i ben, bu i'r ffigwr hwn gynyddu i dros 300 ac yn sgil llwyddiant y prosiect mae prosiectau tebyg ar waith yn Eryri a Chonwy erbyn hyn. Bu oedi gyda phrosiect Llysgenhadon Twristiaeth Sir y Fflint oherwydd bu i'r sector twristiaeth ddod i ben yn sgil y pandemig. Fodd bynnag, erbyn hyn mae Cadwyn Clwyd wedi comisiynu amryw gontractwyr i ail-gydio yn y prosiect.

Cafodd yr astudiaeth ddichonolrwydd ar y Pedair Priffordd yn Sir Ddinbych ei chyflawni'n ystod y cyfnod adrodd hwn hefyd a bu i'r ymgeiswyr gyflwyno cais i arianwyr allanol weithredu'r cynlluniau.

THEME 2 - FACILITATING PRE-COMMERCIAL DEVELOPMENT, BUSINESS PARTNERSHIPS AND SHORT SUPPLY CHAINS


Despite the restrictions Covid-19 placed on project delivery this financial year, LEADER funding has supported a variety of projects that encourage more entrepreneurs to try out new ideas; start and/or grow sustainable small businesses, create business partnerships and shorten supply chains.

Two projects that provided invaluable advice, support and guidance to businesses through the pandemic were the Rural Business Networks (phase 2) and the Social Enterprise Network. A tailored package of support was delivered via a number of digital events. For example, during the initial lockdown, digital events were held with speakers covering topics such as online security, 'Zoom bombing', CV-19 cyber threats and the impacts on employees working from home. During the lifting of lockdown, topics covered included how to implement safe working practices and ensuring safety measures were in place (e.g. risk assessments), employee mental health, HR, resilience, and the effect of Covid-19 on food manufacturing plant processes. There was also an increase in the number of pre-start-ups looking for advice on starting new social enterprises.

Other projects that successfully moved to digital delivery include the cooperation projects Managerial Skills for Small Business Start-Ups and Opening the Kitchen Doors (Taste). As physical events were cancelled, the Taste project promoted positive stories through a number of films, profiling local producers across the three counties. This culminated in a number of live hosted tasting sessions and tours featuring a number of producers, retailers and hospitality providers from the region. A positive impact of this project was facilitating local producers get their produce to a wider range of customers, the increase in support from 'buying local' and a spike in orders for producers as a direct result of the promotional plan put in place for this project.

The Denbighshire Tourism Ambassadors project was completed this period, achieving 122 new ambassadors for the county. Since the project funding ended, this figure has increased to over 300, and project's success has seen it replicated in Snowdonia and Conwy. Flintshire's Tourism Ambassador programme was delayed as the tourism sector closed down due to the pandemic, but Cadwyn Clwyd has now commissioned various contractors to re-start the project.

The Four Great Highways feasibility study in Denbighshire was also completed during this reporting period, and the applicants have submitted a bid to external funders to implement the plans.



THEMA 3 – YMCHWILIO FFYRDD NEWYDD O GYNNIG GWASANAETHAU LLEOL ANSTATUDOL

Bu thema 3 LEADER yn datblygu a gwella galluedd cymunedau, grwpiau cymunedol a mentrau yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam i gymryd ar awenau a chynnig gwasanaethau yn yr ardaloedd hynny. Bu i arweinwyr y prosiectau hyn dderbyn cyngor a chymorth gyda throsglwyddo asedau cymunedol, cefnogi datblygiad cynaliadwy a pharhad hybiau cymunedol ynghyd â chefnogi cymunedau i gymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth dros wasanaethau lleol tyngedfennol.

Ymysg y prosiectau cafodd eu cefnogi oedd astudiaethau dichonolrwydd yn canolbwyntio ar wella adeiladau cymunedol fel bod modd eu defnyddio i gynnig gwasanaethau sylfaenol i drigolion y gymuned. Un grŵp o'r fath wnaeth dderbyn cyllid i gynnal astudiaeth ddichonolrwydd yn ystod y cyfnod hwn oedd Cyngor Cymuned Penyffordd. Nod y Cyngor oedd trosglwyddo ased Canolfan Ieuentid Penyffordd i allu agor Hwb Cymunedol i Benyffordd, Penymynydd a Dobshell. Bu iddyn nhw fanteisio ar y wybodaeth o'u hastudiaeth ddichonolrwydd i lunio'u cais cam 2 i Gyngor Sir y Fflint. Bu'r cais hwnnw'n llwyddiannus ac mae'r grŵp erbyn hyn yn ceisio ennill cyllid cyfalaf i weithredu'r addasiadau sydd wedi'u hargymell yn sgil yr astudiaeth.

Astudiaeth ddichonolrwydd arall wnaeth dderbyn cefnogaeth oedd Estyniad Gwasanaeth Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych (SDCP). Mae gwaith dichonolrwydd gan amlaf yn rhaganghenraid i fynd ati i geisio am fwy o gyllid. Wedi iddyn nhw gwblhau'r astudiaeth, fe lwyddodd Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych i ennill £499,754.00 dros gyfnod o 4 mlynedd gan y Loteri Genedlaethol. Mae hyn yn enghraifft wych o sut gallai mymryn o gefnogaeth gan LEADER arwain at ennill mwy fyth o gyllid.

Yn ystod y pandemig, bu i LEADER gefnogi gwaith y Ganolfan Enfys yn Llannerch Banna. Bu i Gydlynedd Gwirfoddoli recriwtio criw o wirfoddolwyr i gynnal y gwasanaeth pryd ar glud a gwasanaethau eraill yng nghefn gwlad de Wrecsam. Ymysg y gwasanaethau oedd cyfeillio, tywys pobl i apwyntiadau meddygol, casglu presgripsiynau a siopa. Bu ychydig o'r gwasanaethau hyn yn amhrisiadwy i gymunedau felly maen nhw'n dal ar waith i'r trigolion allu manteisio arnyn nhw.



Yn Sir y Fflint, mae Cadwyn Clwyd wrthi'n ariannu'r prosiect Micro Care yn rhannol, sydd â gwerth prosiect LEADER o £203,997.00. Cafodd y prosiect prawf ei ddatblygu'n dilyn astudiaeth ddichonolrwydd oedd hefyd wedi'i hariannu gan Cadwyn Clwyd. Gyda diolch i Cadwyn Clwyd am eu cefnogaeth, roedd modd i'r prosiect ddenu £65,871.00 ychwanegol gan Gronfa Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru. Mae Cadwyn Clwyd yn aelod o Fwrdd Gweithredu Micro-care a hyd yn hyn bu i'r prosiect lwyddo i sefydlu 21 o fusnesau micro-care. Mae'r busnesau hyn yn cynnig gwasanaethau gofal personol a llesiant i 51 o gleientiaid gan gynnig 350 awr o wasanaethau gofal yr wythnos ar gyfartaledd ynghyd a chyfanswm o 40 awr o wasanaethau llesiant.

THEME 3 - EXPLORING NEW WAYS OF PROVIDING NON-STATUTORY LOCAL SERVICES

LEADER theme 3 has been developing and enhancing the capabilities of local communities, community groups and enterprises in Denbighshire, Flintshire and Wrexham to take on the delivery of local services. These projects have received advice and assistance on community asset transfers, supporting the sustainable development and continuation of community hubs, and supporting communities to take responsibility and ownership of important local services.

Projects supported include feasibility studies focusing on improving community buildings so they can be used to provide basic services for the local community. One such group that has received funding for a feasibility study during this period was Penyffordd Community Council, who were looking at the asset transfer of Penyffordd Youth Centre to enable them to create the Penyffordd, Penymynydd and Dobshell Community Hwb. The information from the feasibility study fed into their stage 2 application to Flintshire County Council, which was successful, and the group are now looking for capital funding to implement the alterations the study recommended.

Another feasibility study supported was the South Denbighshire Community Partnership (SDCP) Service Extension. Feasibility work is often a prerequisite for applying for larger funds and, following the completion of this study, SDCP were successful in applying for £499,754.00, over 4 years, from the National Lottery. This is a great example of how a small amount of LEADER support can be the key to unlocking more funding.

During the pandemic, LEADER supported the work of the Rainbow Centre in Penley. Here a Volunteer Coordinator created a bank of volunteers to support the meals-on-wheels and other services in rural south Wrexham. These include befriending, escorting people to medical appointments, collecting prescriptions and shopping. Some of these services have proven to be so invaluable to communities that they continue to be delivered.

In Flintshire, Cadwyn Clwyd is currently part funding the Micro Care project, which has a total LEADER project value of £203,997.00. This pilot project was developed following a feasibility study, also funded by Cadwyn Clwyd. Cadwyn Clwyd's support has allowed the project to draw down a further £65,871.00 from Welsh Government Foundational Economy. Cadwyn Clwyd sit on the Flintshire Micro-care Implementation Board and, to date, the project has successfully established 21 micro-care businesses. These provide both personal care and wellbeing services to 51 clients, on average offering 350 hours per week care services and 40 hours per week wellbeing services in total.

THEMA 4 – YNNI ADNEWYDDADWY AR LEFEL GYMUNEDOL

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bu i'r Grwpiau Gweithredu Lleol a Cadwyn Clwyd gefnogi sawl prosiect LEADER gyda'r nod o gynorthwyo cymunedau i fwrw golwg ar gyfleoedd i gynhyrchu a defnyddio ynni adnewyddu, er datblygu cynaliadwy ac i liniaru newid mewn hinsawdd. Mae LEADER yn gronfa ddelfrydol i brosiectau o'r fath gan fod modd iddi ymchwilio technolegau a phrosiectau newydd sydd wedi'u hystyried yn rhy fentrus ar gyfer cronfeydd prif ffrwd eraill.

Mae sawl astudiaeth ddichonolrwydd wedi'u cwblhau. Enghraifft nodweddiadol oedd astudiaeth gyda Dulas Ltd, ar ddatblygu system ffotofoltäig solar yng Nghanolfan Ceiriog, Wrecsam. Yn Sir y Fflint, bu i Cadwyn Clwyd gydweithio gydag Asiantaeth Ynni SevernWye ar astudiaeth am 'Lasu Mynydd Helygain'. Bu i'r astudiaeth ystyried ystod o fodolau busnes cynaliadwy i fanteisio i'r eithaf ar gynhyrchiant Mynydd Helygain. Bu'n bwrw golwg ar ffyrdd arloesol o reoli a defnyddio'r prysgwydd a rhedyn ar yr ucheldir i gynhyrchu tanwydd a dillad gwely anifeiliaid i ffermwyr yr ardal. Buasai cynlluniau o'r fath hefyd yn gymorth i glirio mwy o dir i ddefaid bori gan ddatblygu'r fioamrywiaeth a gwarchod systemau eco hanfodol. Bu i Cadwyn Clwyd hefyd fwrw golwg ar dechnolegau newydd eraill drwy astudiaeth ddichonolrwydd wedi'i chwblhau ar y cyd â Scene Connect Ltd gyda chynllun gwresogi ardal ar ran Ymddiriedolaeth Trefadaeth Brymbo. Unwaith i Cadwyn Clwyd sefydlu cynllun ynni dŵr Corwen yn llwyddiannus, bu iddyn nhw gydweithio gyda'r cwmni cydweithredol cymunedol i lunio astudiaeth ddichonolrwydd er mwyn datblygu cynllun tebyg yn Bonwm. Mae'r cynllun ar fin cyflwyno cais cysylltiad grid.

Prosiect hollbwysig arall gafodd ei gefnogi fel rhan o'r thema hwn oedd Clwb Car Cymunedol Edeirnion. Mae'r prosiect yn cynnig clwb hurio car cymunedol a gwasanaeth tacsï 'galw a theithio' yn defnyddio 'Neli', sef car trydan Nissan Leaf. Bu i Cadwyn Clwyd gynorthwyo i sefydlu'r prosiect gyda Phartneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych (SDCP) ac fe gaiff y gwasanaeth ei gynnig yng Nghanolfan Ni, Corwen lle mae mannau gwefru cerbydau trydan. Bu'r prosiect prawf yn hollbwysig unwaith i'r pandemig a'r cyfnod clo ynghlwm gydio yn Nyffryn Dyfrdwy. Bu'r prosiect a'r gwirfoddolwyr yn gyfrifol am nôl siopa a nôl a danfon meddyginiaethau i drigolion yr ardal. Yna, yn nes ymlaen roedd gofyn iddyn nhw gludo pobl fregus i apwyntiadau brechu. Yn ychwanegol i hyrwyddo cludiant cynaliadwy roedd y prosiect yn hanfodol i bobl fregus ac unig yr ardal. Cafodd y prosiect ei hyrwyddo'n eang ar Newyddion y BBC ac S4C a bu i drigolion rhanbarthau eraill oedd yn dymuno sefydlu eu cynlluniau eu hunain gysylltu i ganfod mwy. Bu'r prosiect llwyddiannus yn rhannol gyfrifol am ennill cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i ehangu gwasanaethau Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych ymhellach.



THEME 4 - RENEWABLE ENERGY ON A COMMUNITY LEVEL

Over this reporting period, the LAGs and Cadwyn Clwyd have supported numerous LEADER projects that have sought to help local communities explore opportunities for generating and utilising renewable energy, for sustainable development and to mitigate climate change. LEADER is an ideal fund for this, as it can investigate new technologies and projects deemed too risky for other mainstream funds.

A number of feasibility studies have been completed. A typical example was a study with Dulas Ltd. on developing a solar photovoltaic system at the Canolfan Ceiriog Centre, Wrexham. In Flintshire, Cadwyn Clwyd worked with Severn Wye Energy Agency on a study into 'Greening the Halkyn Uplands'. This considered a range of sustainable business models for optimising the productivity of Halkyn Mountain. It looked at innovative ways to manage and utilise the scrub and bracken on the uplands to produce fuel and animal bedding for local farmers. Such schemes would also clear more land for sheep grazing, whilst enhancing the biodiversity and conserving vital eco systems. Other examples of Cadwyn Clwyd exploring new technologies include a feasibility study completed with Scene Connect Ltd. on a district heating scheme for Brymbo Heritage Trust. After successfully establishing the Corwen hydroelectric scheme, Cadwyn Clwyd worked with the community cooperative on a feasibility study to develop a similar scheme in Bonwm, which is now at the point of submitting a grid connection application.

Another important project supported under this theme was the Edeyrnion Community Car Club. This project provides a community car hire club and 'dial a ride' taxi service using 'Neli', a Nissan Leaf electric car. Cadwyn Clwyd helped set up the project with South Denbighshire Community Partnership (SDCP) and it is based at Canolfan Ni, Corwen, where there are electric charging points. The pilot gained a whole new importance once the Covid-19 pandemic and accompanying lockdown made themselves felt in the Dee Valley. The project and its volunteers were used for food shopping and medicine pickup and deliveries, and then later to take vulnerable people to vaccination appointments. In addition to promoting sustainable transport, the project was a lifeline for vulnerable, isolated people. The project has received extensive coverage on BBC News and S4C, and other regions interested in setting up their own schemes have been in touch to find out more. The successful project played a role in the National Lottery Community Fund awarding funding for the further expansion of SDCP services.

THEMA 5 – YMELWA AR DECHNOLEG DDIGIDOL

Bu cysylltedd digidol a modd o fanteisio ar gysylltiad band eang yn broblem hollbwysig i drigolion oedd yn dymuno defnyddio gwasanaethau a busnesau oedd yn dymuno masnachu yng nghefn gwlad Gogledd Ddwyrain Cymru. Bu i'r pandemig hefyd amlygu pwysigrwydd cysylltiadau band eang cryf wrth i fyfyrwyr fynd ati i ddysgu ar-lein ac wrth i eraill gael eu hannog i weithio o adref. Bu i Cadwyn Clwyd gynnig cefnogaeth hanfodol drwy LEADER i ganfod datrysiadau i broblemau cysylltedd trigolion yr ardal. Roedd Cefnogaeth Cysylltedd Digidol yn brosiect Prawf Ar y Cyd drwy LEADER wnaeth ariannu 2 Swyddog Cefnogi Cysylltedd i weithio ledled tair ardal Awdurdod Lleol Gogledd Ddwyrain Cymru : un swyddog llawn amser yn Sir Ddinbych ac un swyddog llawn amser yn gweithio ledled Sir y Fflint a Wrecsam. Bu i'r swyddogion gydweithio gyda thrigolion y cymunedau i ddatrys problemau yn ymwneud gyda chysylltedd megis cyflymderau araf deg yn ogystal â chynorthwyo'r rheiny heb fand eang o gwbl i gysylltu gyda'r we. Fel rhan o'r gwaith bu'r swyddogion yn mapio adeiladau heb fand eang a'u dwyn ynghyd mewn Partneriaeth Ffeibr Cymunedol (CFP) cyn cysylltu gyda Open Reach i ffurfio datrysiad ffeibr priodol i gynnig band eang yn y cartrefi a'r busnesau hynny. Bu'r prosiect yn fodd i fusnesau fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn sgil cysylltiad band eang cyflymach o ran cynyddu effeithlonrwydd, cynhyrchiant a manteisio ar farchnadoedd newydd. Mae'r prosiect erbyn hyn wedi'i drawsnewid i fod yn gais Cadwyn Cyflenwi ac fe dderbyniodd gymeradwyaeth cychwynnol gan Lywodraeth Cymru i barhau i gynnig y gefnogaeth hyd at Fehefin 2023.

Bu i LEADER hefyd geisio datblygu ymhellach drwy annog pobl i ymwneud gydag a defnyddio technolegau digidol newydd mewn ffordd fwy arloesol. Ymysg yr enghreifftiau effeithiol mae hyfforddiant sgiliau digidol gyda Cyngor Ar Bopeth (CAB) i drigolion yng nghefn gwlad Sir y Fflint gyda'r nod o leihau allgáu cymdeithasol. Yn ogystal gynhaliwyd sawl digwyddiad hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol a marchnata ar gyfer busnesau. At hyn bu modd i ymwelwyr yr ardal elwa o'r Rhaglen Ffôn Llwybrau Digidol ac iBeacons. Caiff prosiect Realiti Estynedig Naratif Dynamig ei ddatblygu ar hyn o bryd hefyd.

THEME 5 - EXPLOITATION OF DIGITAL TECHNOLOGY

Digital connectivity and access to broadband have been a critical issue for both residents wishing to access services and for businesses looking to trade in rural North East Wales. The pandemic also highlighted the importance of good broadband connections, as students moved to online learning and people were encouraged to work from home. Through LEADER, Cadwyn Clwyd has provided essential support to help find solutions to local peoples' connectivity problems. Digital Connectivity Support was a LEADER Cooperation Pilot project that funded 2 Connectivity Support Officers, working across the three North East Wales Local Authority areas: one full-time officer in Denbighshire, and one full-time officer covering Flintshire and Wrexham. They have worked with communities to troubleshoot connectivity issues such as very low speeds, and assisted those with no broadband at all to get connected. This has included mapping properties without access and bringing them together in Community Fibre Partnerships (CFPs), before liaising with Openreach to build a customised fibre solution to bring broadband to these homes and businesses. The project has allowed businesses to maximise the opportunity presented by faster broadband in terms of increasing efficiency, productivity and accessing new markets. This project has successfully transitioned into a Supply Chain bid which has received initial approval from WG to continue the support up to June 2023.

LEADER had also sought to go further and encourage take up and the innovative use of new digital technologies. Good examples include the digital skills training with Citizens Advice Bureau (CAB) for residents in rural Flintshire, to reduce social exclusion. For businesses, a number of social media and marketing training events have been held. Tourism visitors to the area have also been able to benefit from the Digital Trails App and iBeacons. Dynamic Narrative Augmented Reality (AR) project is also in development.

MYND I'R AFAEL â COVID-19

Wrth inni brofi union raddfa a difrifoldeb y pandemig Covid-19 bu i Cadwyn Clwyd fwrw iddi gyda'u gwaith. Fe ffurfiwyd prosiect cydweithredol LEADER gwerth £54,000 ym mis Mawrth 2020 wedi'i ariannu 100% a'i weithredu ledled ardaloedd cefn gwlad Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam (£18,000 i bob sir). Roedd y prosiect y cyntaf o'i fath i'w weithredu yng Nghymru gyfan. Bu i 'Covid-19: Prosiect Cymorth Sefydliadau Gweithredu Cymunedol' gydweithio gydag endidau cyfreithiol nid er elw – mentrau cymdeithasol, elusennau, mentrau cymunedol a mudiadau ac asiantaethau sector cyhoeddus. Diben y cydweithio oedd bwrw golwg ar ffyrdd newydd o gynnig gwasanaethau sylfaenol anstatudol i helpu pobl fregus, pobl mewn tloedi a phobl sy'n sâl ac yn ynysu yn sgil y pandemig Covid-19.

Bu i swyddogion Cadwyn Clwyd weithio ar 16 prosiect ar wahân yn yr ardal. Ymysg y costau cafodd eu talu oedd costau cyflog, cyfarpar ar raddfa fach a threuliau'r gwirfoddolwyr. Ynglwm â'r costau cyflog oedd talu am aelod o Dîm Llesiant Cymdeithas Tai ClwydAlyn i gynnig cyngor ariannol a lles, Ymarferydd Iechyd Meddwl Advance Brighter Futures ac Asiantiaid Cymunedol yng nghefn gwlad Wrecsam i gydlynu gwaith y gwirfoddolwyr. Ynglwm â'r costau cyfarpar oedd prynu llechi digidol i Gartrefi Adullam a HFT fel bod modd iddyn nhw gynnig gwasanaethau hanfodol i unigolion bregus ac anabl oedd mewn peryg yn sgil ynysu cymdeithasol. Cafodd ystod o gostau gwirfoddoli eu cefnogi gan gynnwys cyfarpar diogelu personol (PPE) i wirfoddolwyr. Bu i'r gwirfoddolwyr hyn gyflawni amryw dasgau fel siopa, nôl meddyginiaethau, gwiriadau lles, gwasanaeth pryd ar glud a chludiant brys i'r rheiny mewn peryg oedd yn cysgodi ac yn hunan ynysu. Menter arall wnaeth dderbyn cefnogaeth oedd menter ar y cyd rhwng Hwb Wrecsam a Grŵp Gwnio yn Yr Orsedd a aeth ati i gynnig cyfarpar diogelu personol i weithwyr allweddol.

At hyn, fe gafodd Strategaethau Datblygu Lleol eu diwygio gan sicrhau bod trechu Covid-19 yn un o'r prif flaenoriaethau. Cafodd yr holl brosiectau cyfredol eu haddasu fel bod modd parhau i'w cynnal yn ddiogel (e.e. defnyddio systemau fideo-gynadledda, digwyddiadau rhithiol ac arolygon ar-lein a rhannu ffeiliau). Roedd gofyn i brosiectau newydd fynd i'r afael gydag effeithiau Covid-19. Gallai Cadwyn Clwyd a phawb ynghlwm deimlo'n hynod falch o'u hymateb i'r pandemig Covid-19 ac mae ymysg un o lwyddiannau sylweddol y cwmni.



TACKLING COVID-19

As the sheer scale and seriousness of the Covid-19 pandemic began to be felt, Cadwyn Clwyd jumped into action. A £54,000 LEADER Cooperation project was put together in March 2020, 100% funded and operating across the rural areas of Denbighshire, Flintshire and Wrexham (£18,000 for each county). It was one of the first such support projects put in place in Wales. The 'Covid-19: Community Action Organisations Support Project' worked with not-for-profit legal entities – social enterprises, charities, community enterprises, and public sector organisations and agencies – to explore new ways of providing non-statutory basic services to help vulnerable people, people in poverty and people sick and isolating due to the Covid-19 pandemic.

Cadwyn Clwyd officers worked on 16 separate projects over the area. Costs supported included salary costs, small-scale equipment and volunteer expenses. Salary costs included a ClwydAllyn Housing Association Wellbeing Team member providing financial and welfare advice, an Advance Brighter Futures Mental Health Practitioner, and Community Agents in rural Wrexham coordinating the volunteer response. Equipment costs included the purchase of tablets for Adullam Homes and HFT so they could continue to provide essential services to vulnerable and disabled individuals at risk due to social isolation. A whole range of volunteer costs were supported, including personal protective equipment (PPE) for volunteers. These volunteers completed a range of tasks, such as shopping, medicines pick-up, welfare checks, meals-on-wheels and emergency transport for shielding and isolating people at risk. Another initiative saw PPE Hwb Wrecsam and a Sewing Group in Rosset supported as they provided PPE for key workers.

In addition, Local Development Strategies were amended and tackling Covid-19 made a key priority. All existing projects were adapted so they could continue to be delivered safely (e.g. using video conferencing systems, virtual events and online surveys and file sharing). New projects were required to tackle the impacts of Covid-19. Cadwyn Clwyd's response to the Covid-19 pandemic is something the company can be immensely proud of and stands as one of its triumphs.



ClwydAllyn

Mae ein Tîm Llesiant yma i chi!

Er mwyn cael gair 5y Tîm Llesiant, ffoniwch ein canolfan gywsyllt fel arfer ar 0900 183 5757, a bydd un o'n gweithredwyr yn eich cyfeirio at y tîm i gael galwad yn ôl ar yr un diwrnod.

Fel arall, anfonwch e-bost at wellbeing@clwydalyn.co.uk, byddwn yn ymateb i chi cyn gynted â phosibl, a gallwn hyd yn oed eich ffonio yn ôl ar amser sy'n addas i chi.

**Ffoniwch rhwng 8am a 6pm
o ddydd Llun i ddydd Gwener**

Os byddi amoch chi angen ychydig o help ychwanegol neu os byddwch yn bryderus am ffrind, cymydog neu aelod o'r teulu, ffoniwch ni. Rydym yma i'ch cefnogi chi gymaint ag y gallwn. #GydaChi



ClwydAllyn

Our Wellbeing team are here for you!

To speak to the Wellbeing team, just call our contact centre on 0900 183 5757 and one of our operatives will refer you to the team for a call back the same day.

Alternatively, email wellbeing@clwydalyn.co.uk and we will respond to you as quickly as possible and we can even call you back at a time that suits you.

Call from 8am to 6pm, Monday to Friday

If you need a little extra help or concerned about a friend, neighbour or family member, please call us. We're here to support you as much as we can. #WithYou



ADBORTH GAN FUDDIOLWYR Y PROSIECTAU FEEDBACK FROM PROJECT BENEFICIARIES

“

Gallaf ddweud gyda llaw ar fy nghalon, heb gyllid LEADER buasai wedi bod yn amhosibl cynnal Parc y Gorffennol gan nad oedd yna unrhyw ariannwr arall yn fodlon bwrw golwg ar ddichonolrwydd prosiect cymunedol mor amlweddog ac arloesol. Bu i gyllid pellach gan y rhaglen LEADER dros y deng mlynedd diwethaf ein caniatáu i ddatblygu ac arallgyfeirio. Rydym erbyn hyn yn Gwmni Buddiant Cymunedol llewyrchus sy'n cynnal parc wledig gymunedol ac atyniad treftadaeth. Mae miloedd o drigolion yr ardal yn tyrru yma i'w fwynhau.

I can honestly say that without LEADER funding, Park In The Past would never have happened as no other funder was willing to support exploring the feasibility of such a multi-faceted and innovative community project. Further funding from the LEADER programme over the last ten years has enabled us to grow and diversify and we are now a thriving Community Interest Company running a community country park and heritage attraction, enjoyed by thousands of local people.

Amanda Brewer – Cyfarwyddwr Parc y Gorffennol / **Park In The Past Director**

”

“

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cyllid LEADER gan ei fod yn fodd inni ddatblygu a chyflawni ystod eang o brosiectau er budd i'r economi cefn gwlad a fyddai wedi bod yn amhosib heb LEADER. Bu i'r prosiectau gafodd eu cynnal gyda chyllid LEADER gyfrannu'n sylweddol tuag at weithredu nifer o weithrediadau allweddol sydd wedi'u hamlygu yng Nghynllun Strategol Rheoli Cyrchfannau Sir y Fflint.

Flintshire County Council recognises and appreciates the importance of LEADER funding as it has allowed us to both develop and deliver a wide variety of projects to benefit the rural economy, which we would otherwise not have been able to do. The projects delivered with LEADER funding have contributed significantly to realising a number of key actions highlighted in the Flintshire Destination Management Strategic Plan.

Richard Jones - Swyddog Datblygu Busnes a Thwristiaeth yng Nghyngor Sir y Fflint / **Business & Tourism Development Officer at Flintshire County Council**

”



Fe lansiodd Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Sir Ddinbych yn sgil ennill cyllid LEADER. Erbyn hyn mae dros 300 o Lysgenhadon yn rhan o'r cynllun a bu'r adborth yn gadarnhaol dros ben. Mae wedi'i ymestyn ledled Cymru erbyn hyn gydag awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol eraill yn lansio eu cynlluniau eu hunain gan ddefnyddio'n llwyfan ni. Roedd y cyllid yn annatod i ddatblygu cynllun llysgenhadon llwyddiannus a chynaliadwy.

The Denbighshire Tourism Ambassador Scheme started as a result of obtaining LEADER funding. The scheme now has over 300 Ambassadors and feedback has been very positive. It's now expanded across Wales with other local authorities and national parks launching their own schemes using our platform. The funding was integral in developing a successful, sustainable ambassador scheme.

Nicola Williams - Swyddog Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau, Cyngor Sir Ddinbych / **Tourism, Marketing and Events Officer, Denbighshire County Council**



Bu'r prosiect Blas yn hwb sylweddol i fy musnes. Rydw i wedi llwyddo i ddenu nifer o gwsmeriaid newydd. Roedd yn brofiad anhygoel imi. Fe wnes i ddysgu sut i ddefnyddio Eventbrite a rheoli digwyddiadau Zoom. Erbyn hyn rydw i'n teimlo'n ddigon hyderus i gynnal y digwyddiadau hyn ar fy liwt fy hun.

Taste has been brilliant for my business. I have loads of new customers. This was a wonderful experience for me. I learnt how to use Eventbrite and manage Zoom events. I now have the confidence to run these events on my own.

Fiona Lewis - Distyllfa Bryniau Clwyd / **Clwydian Range Distillery**



Rydym yn ddiolchgar dros ben am y cyllid LEADER. Heb y cyllid hwn, buasai wedi bod yn llawer anoddach sefydlu, datblygu a chynnal y prosiect Micro-Care yn Sir y Fflint. Gyda'r cyllid, bu modd inni recriwtio criw o feicro-ofalwyr lleol, a gwledig mewn rhai achosion, wnaeth gynnig gofal a datrysiadau cefnogi i bobl fregus yng nghymunedau cefn gwlad. Bu i hyn yn ei dro sicrhau bod pobl yn aros adref ac yn gallu manteisio ar fwy o ddewisiadau. Bu'r prosiect hefyd yn fodd inni greu cyfleoedd swyddi a gyrfaoedd i bobl ledled Sir y Fflint gan eu cynorthwyo i ddatblygu busnesau bach sy'n cynnig gwasanaeth i'w cymunedau.

We are extremely grateful for the LEADER funds. Without this funding it would have made it much more difficult to establish, build and sustain the Flintshire Micro-Care project. With it, we have been able to build up a base of local and in some cases rural micro-carers, who have delivered care and support solutions to vulnerable people in rural communities, keeping people at home and expanding choice. The project has also allowed us to create job opportunities and careers for people across Flintshire, enabling them build small businesses serving their communities.

Rob Loudon - Swyddog Prosiect Micro Care Cyngor Sir y Fflint / **Micro Care Project Officer Flintshire County Council**



“

